

GWYBOD EICH DOGFENNAU AR ARFAU TÂN Y DU

Eleni, bu nifer cynyddol o gopïau twyllodrus o ddogfennau arfau tân yn cael eu defnyddio mewn ymgais i gaffael arfau tân cyfreithlon yn anghyfreithlon.

Mae'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA) angen cymorth masnach arfau tân a deiliaid tystysgrifau i atal arfau dân cyfreithlon rhag cael eu trosglwyddo'n ddiarwybod i feddiant anghyfreithlon ac i amddiffyn y gymuned arfau tân trwyddedig rhag pobl sy'n bwriadu eu twyllo.

Gallwch chi wneud eich rhan trwy ddilyn y 3 cham syml hyn:



1. TYSTYSGRIF GWREIDDIOL

Sicrhewch eich bod yn archwilio'r dystysgrif wreiddiol ym mhob trafodiad.



2. AROLYGIAD

Cymerwch ychydig eiliadau ychwanegol i archwilio'r dystysgrif a gwirio am y nodweddion diogelwch a amlygwyd dros y dudalen. Sicrhewch eich bod hefyd yn edrych ar y llun a gwirio ei fod yn cyfateb i'r person sy'n rhoi'r dystysgrif i chi.



3. ADRODD AR BRYDERON

Os oes gennych unrhyw bryderon nad yw tystysgrif yn ddilys, gwrthodwch y gwerthiant a chysylltwch â'ch adran trwyddedu arfau tân. Fel arall, gallwch adrodd ar bryderon 100% yn ddiennw i'r elusen Crimestoppers ar 0800 555 111 neu drwy www.crimestoppers-uk.org

SUT I WIRIO TYSTYSGRIFAU

Dylid argraffu tystysgrifau Deliwr Arfau Tân ac Ardau Tân Cofrestredig ar bapur glas.
Dylid argraffu tystysgrifau dryll ar bapur llwydfelyn.

Mae'r nodweddion diogelwch yr un peth ar bob tystysgrif. Mae rhain yn cynnwys:



Dyfrnod

- Daliwch bapur i'r golau i'w ddilysu
- Dylech weld y dyluniad sy'n edrych fel y symbol "@".
- NB. Mae patrwm gwahanol ar dystysgrifau arfau awyr a gyhoeddir gan Heddlu'r Alban a phob tystysgrif a gyhoeddir gan Heddlu Gogledd Iwerddon. Ewch i wefan yr NCA i gael rhagor o fanylion.



Gwiriad golau uwchfioled (UV)

- Defnyddiwch dortsh UV sy'n addas ar gyfer gwirio arian papur
- Chwiliwch am felyn fflworoleuol "SWYDDFA GARTREF" ar hyd un ochr y ddalen A4
- Bydd yn fflworoleuo'n wahanol ar ochr arall y papur



Gwiriad UV ochr cefn

- Trowch y dudalen drosodd o'r wiriad flaenorol
- Gan ddefnyddio dortsh UV, chwiliwch am linellau glas sy'n ffurfio patrwm blodyn a seren, yn debyg i gyfuchliniau a welir ar fap
- Mae'r testun "SWYDDFA GARTREF" wedi'i droshaenu ar y patrwm hwn yn fflworoleuo'n glas

Dilynwch y cod QR i wefan yr NCA i gael rhagor o wybodaeth ac i wyllo fideo ar sut i archwilio tystysgrifau.



<https://bit.ly/3Rl34rA>